# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

**E&S(4)-02-11 : Papur 2**

1. Yn ei gyfarfod ar 6 Gorffennaf 2011, bu'r Pwyllgor yn ystyried pynciau ar gyfer ymchwiliadau craffu i'r dyfodol.

2. Mae papur sy'n amlinellu'r materion a drafodwyd, ynghyd â llinell amser o'r gweithgareddau hysbys neu a ragwelir a all effeithio ar waith y Pwyllgor dros y misoedd nesaf, wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

3. Gwahoddir Aelodau i drafod sut maent am fwrw ymlaen â'u rhaglen waith.

Gwasanaeth y Pwyllgorau
Gorffennaf 2011

## Atodiad A

# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

# Pynciau ar gyfer ymchwiliadau posibl: materion y gellid eu hystyried

Yn ystod ei gyfarfod diwethaf, nododd y Pwyllgor nifer o feysydd posibl lle gellid gwneud gwaith pellach. Mae'r nodyn hwn yn awgrymu rhai o'r materion y gallai'r Pwyllgor ymchwilio iddynt o fewn y meysydd hyn.

### Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin

- Y cynigion deddfwriaethol ar gyfer diwygio'r polisi amaethyddol cyffredin a gaiff eu cyhoeddi ym mis Tachwedd 2011.
- Effaith cyhoeddiad cyllideb yr Uned Ewropeaidd ar yr arian PAC sydd ar gael i Gymru.
- Effaith cynigion deddfwriaethol yr UE ar Gymru.
- Y materion a ddylai gael eu blaenoriaethu gan Gymru yn ystod y trafodaethau hyn.

### Trafnidiaeth gynaliadwy

- Cyfleoedd posibl i gydweithio â'r Pwyllgor Menter a Busnes.
- Datblygu trafnidiaeth gynaliadwy mewn ardaloedd trefol a gwledig.
- Cwrdd â thargedau lleihau carbon Llywodraeth Cymru yng nghyd-destun trafnidiaeth.
- Trafnidiaeth gymunedol.

### Cynllunio

- Sicrhau cynnydd o ran yr argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar bolisïau cynllunio, gan gynnwys cynigion i adolygu sut y mae'r system Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei gweithredu.
- Sicrhau cynnydd o ran gwireddu'r rôl y mae cynllunio yn ei chwarae yn yr agenda ar gyfer adnewyddu'r economi.
- Bil Cynllunio posibl i Gymru.

### Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009: craffu ar ôl deddfu

- Craffu ar ddatblygiad Gwarchodfeydd Morol Gwarchodedig Iawn.
- Craffu ar y cynnydd a gafwyd o ran datblygu cynlluniau morol i Gymru.
- Craffu ar effeithiolrwydd y system trwyddedu morol newydd.

- Craffu ar y pwerau newydd dros bysgodfeydd ac ar effaith diwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.

### Glastir

- Sicrhau cynnydd o ran gweithredu argymhellion adolygiad Rees Roberts.
- Nifer y ceisiadau a gafwyd ar gyfer yr ail rownd.
- Sicrhau cynnydd o ran cwblhau'r manylion ar gyfer yr elfen wedi'i thargedu, yr elfen tir comin a'r cynllun coetir.

### Gwastraff ac ailgylchu

- Sicrhau cynnydd o ran cwrdd â thargedau gwastraff ac ailgylchu yng Nghymru ac yn Ewrop.
- Seilwaith gwastraff Cymru.
- Datblygu marchnadoedd ar gyfer deunyddiau gwastraff.

### Yr amgylchedd adeiledig

- Effaith datganoli rheoliadau adeiladu o 2012.
- Effeithiolrwydd y Cod Cartrefi Cynaliadwy.
- Polisïau cynllunio a chanllawiau ar gynaliadwyedd yn yr amgylchedd adeiledig.
- Cyfraniad yr amgylchedd adeiledig at dargedau newid hinsawdd.

### Parciau a dynodiadau cenedlaethol

- Adolygiad o'r dynodiadau ar gyfer tiroedd gwarchodedig yng Nghymru.
- Rôl bresennol y Parciau Cenedlaethol, a'u gwaith.
- Rôl bresennol ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol a'r gwaith a wneir mewn perthynas â'r ardaloedd hyn.

## Amserlen ar gyfer cyhoeddiadau a phenderfyniadau allweddol rhwng tymor yr haf 2011 a thymor y gwanwyn 2012

■ = Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru ■ = *Senedd y DU a Llywodraeth y DU*

■ = <u>UE</u> → gwaith yn parhau dros fwy nag un tymor

| **Haf 2011** | **Hydref 2011** | **Gwanwyn 2012** |
|---|---|---|
| **Gorffennaf:** Rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru'n cael ei chyhoeddi.<br><br>*Tŷ'r Cyffredin yn parhau i ystyried Bil Senedd y DU ynghylch Ynni 2010-11.* →<br><br>*Tŷ'r Arglwyddi yn parhau i ystyried Bil Senedd y DU ynghylch Lleoliaeth 2010-11.* →<br><br>*Tŷ'r Cyffredin yn parhau i ystyried Bil Senedd y DU ynghylch Cyrff Cyhoeddus 2010- 11.* →<br><br>*Tŷ'r Cyffredin a'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau yn parhau i ystyried Bil Drafft Senedd y DU ynghylch Dyfarnwr Cod Bwydydd.* →<br><br>*Datganiadau ar bolisïau ynni cenedlaethol yn cael eu mabwysiadu*<br><br><u>Cynigion y Comisiwn Ewropeaidd ar ddiwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yn cael eu cyhoeddi.</u> → | Bil posibl ynghylch datblygu cynaliadwy?<br><br>**Hydref:** Craffu ar waith Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ac ar waith y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd.<br><br>Cyhoeddiad disgwyliedig ynghylch y rhestr bosibl o Warchodfeydd Morol Gwarchodedig Iawn, o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. →<br><br><u>Cynigion deddfwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd ar y Polisi Amaethyddol Cyffredin yn cael eu cyhoeddi.</u> →<br><br>**Tachwedd:** *Araith y Frenhines a rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU yn cael eu cyhoeddi.*<br><br>**Rhagfyr:** Y dyddiad cau disgwyliedig ar gyfer adolygiad Llywodraeth Cymru o flaenoriaethau'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol a'r consortia trafnidiaeth rhanbarthol. | **Ionawr:** Rheoliadau adeiladu yn cael eu datganoli i Gymru.<br><br>Dechrau'r cynllun Glastir i'r rheiny a wnaeth gais yn 2010.<br><br>Yr holl ddata ar y ceisiadau a gafwyd yn yr ail rownd o geisiadau ar gyfer cynllun Glastir yn debygol o fod ar gael.<br><br>**Ebrill:** *Y Comisiwn Cynllunio Seilwaith i gael ei ddisodli gan yr Uned Cynllunio Seilwaith Mawr o fewn yr Arolygiaeth Gynllunio.* |

| | | |
|---|---|---|
| | Cytundeb disgwyliedig ar becyn llaeth yr UE. | |